# Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion

Mai 2021

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi'r adroddiad hwn o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac yn unol ag adran 145 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r gwaith wedi'i gyflawni ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Rydym yn arolygu gwasanaethau GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau i amlygu meysydd sydd angen eu gwella.

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

**Cyflwyniad a chefndir** 4

**Prif gasgliadau** 6

**Argymhellion** 9

Argymhellion ar gyfer gwella'r ffocws strategol ar ansawdd, diogelwch cleifion a risg 9

Trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi ansawdd a diogelwch cleifion 12

Argymhellion ar gyfer trefniadau craffu sefydliadol ar ansawdd a diogelwch cleifion 14

Argymhellion i wella'r trefniadau ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion ar lefel y cyfarwyddiaethau 19

Argymhellion i wella'r broses o nodi a rheoli risg 22

Argymhellion i wella'r broses o reoli digwyddiadau, pryderon a chwynion 24

Argymhellion ar gyfer diwylliant sefydliadol a dysgu 28

# Cyflwyniad a chefndir

1 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac ysbyty i boblogaethau Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.

2 Ym mis Tachwedd 2019, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Archwilio Cymru adolygiad ar y cyd o ansawdd trefniadau llywodraethu a rheoli risg y Bwrdd Iechyd. Gwnaed hyn yn dilyn adroddiad gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd, a nododd nifer o bryderon difrifol a methiannau mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth. Rhoddodd adroddiad y Colegau Brenhinol sylw mawr i'r pryderon a nodwyd gennym yn flaenorol am drefniadau llywodraethu a rheoli risg y Bwrdd Iechyd. Yn sgil adroddiad y Colegau Brenhinol, ym mis Ebrill 2019, cafodd gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd eu gosod dan fesurau arbennig, a chafodd y sefydliad statws 'ymyrraeth wedi'i thargedu' o fewn fframwaith uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru[1].

3 Canfu ein Hadolygiad ar y Cyd[2], a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2019, nifer o wendidau sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas ag ansawdd y gofal a diogelwch cleifion. Gwnaethom 14 o argymhellion ar gyfer gwella'r trefniadau rheoli risg, y broses o ddelio â digwyddiadau, honiadau a chwynion (pryderon), diogelwch cleifion a diwylliant sefydliadol. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd y canfyddiadau yn llawn, a dechreuodd ymateb i argymhellion yr adroddiad.

4 Ers ein hadolygiad, bu newidiadau i uwch-dîm arwain y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys Prif Weithredwr newydd, a benodwyd i'r Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2020, gan gymryd yr awenau oddi wrth benodiad dros dro a wnaed ym mis Mehefin 2019, yn dilyn ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol. Bu rhai newidiadau i rolau gweithredol allweddol eraill hefyd, gan gynnwys penodi Cyfarwyddwr Pobl parhaol, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapïau a Gwyddorau Iechyd, Cyfarwyddwr Dros Dro Cynllunio a Pherfformiad, a Phrif Swyddog Gweithredu Dros Dro.

1 Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd GIG Cymru

2 Adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

5 Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi model gweithredu newydd ar waith, gan greu tri Grŵp Ardal Integredig, yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol Merthyr Tudful a Chwm Cynon, Rhondda Taf Elái a Phen-y-bont ar Ogwr. Caiff y Grwpiau Ardal Integredig eu harwain yn glinigol a'u cefnogi gan reolwyr er mwyn atgyfnerthu arweinyddiaeth glinigol a sicrhau ffocws ar ansawdd a diogelwch. Mae'r Grwpiau Ardal Integredig a'u Grwpiau Gwasanaethau Clinigol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau acíwt, sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl i ddiwallu anghenion eu cymunedau lleol.

6 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn yr 14 o argymhellion gwreiddiol a wnaed yn ein hadroddiad. Rydym wedi ystyried yr effaith y mae pandemig COVID-19 (y pandemig) wedi ei chael ar allu'r Bwrdd Iechyd i ymateb i'r argymhellion, ond o ystyried y diffygion sylfaenol a nodwyd yn 2019, teimlwyd ei bod hi'n bwysig nodi ac asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei wneud. Gwnaethom gynnal gweithgareddau casglu tystiolaeth tebyg i'r rhai yn ein hadolygiad blaenorol. Yn sgil y pandemig, cwblhawyd ein gwaith o bell yn unol â'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol a'r cyfyngiadau ar ein gwaith archwilio ac arolygu ar y safle ar adeg y gwaith maes.

# Prif gasgliadau

7 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn 2019, yn arbennig wrth ystyried yr heriau a wynebwyd wrth ymateb i'r pandemig. Mae'n amlwg bod hyn wedi atal cynnydd mewn rhai meysydd, gan olygu nad yw rhai camau gweithredu wedi'u cwblhau mor gyflym â'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol gan y Bwrdd Iechyd.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd ar lefel strategol, gan sicrhau mwy o ffocws ar ansawdd, diogelwch cleifion a risg. Drwy ei Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion, mae wedi diffinio ystyr gofal o ansawdd uchel, gan gysoni'r fframwaith hwn â'i fodel gweithredu newydd. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi effeithio ar ddatblygiad Strategaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd, ac mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn. Ers cwblhau ein gwaith maes, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fwriad i integreiddio'r Strategaeth Ansawdd yn Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig y Bwrdd Iechyd, sy'n cael ei datblygu. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi nodi ei fwriad i gysoni Strategaeth Profiad y Claf â strategaeth Ymgysylltu gyffredinol y Bwrdd Iechyd. Disgwylir i'r strategaethau hyn gael eu cwblhau erbyn hydref 2021.

9 Mae atebolrwydd a chyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch bellach yn gliriach. Mae'r broses o arwain ansawdd a diogelwch cleifion wedi'i hatgyfnerthu drwy rannu cydgyfrifoldeb rhwng y pedwar cyfarwyddwr gweithredol clinigol. Mae'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn diffinio cyfrifoldebau'r swyddogion gweithredol a'r prif weithredwyr. At hynny, mae adnoddau wedi'u cryfhau drwy gyflwyno rolau newydd i gefnogi ansawdd a diogelwch cleifion, a hynny yn y tîm rheoli nyrsio yn ogystal â swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol.

10 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau craffu sefydliadol ar ansawdd a diogelwch cleifion. Gwnaed gwaith i wella llif sicrwydd o'r gwasanaeth i'r Bwrdd, sydd bellach yn gliriach ac wedi'i ategu gan welliannau i ansawdd y wybodaeth a gyflwynir i'r pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Caiff aelodau annibynnol bellach eu cefnogi fwy yn eu rolau craffu drwy drefniadau sefydlu a chyfleoedd datblygu parhaus, ac mae mwy o ffocws ar gasglu profiadau cleifion a dysgu o'r profiadau hynny.

11 Mae ansawdd a diogelwch bellach yn ffocws allweddol mewn gwaith beunyddiol yn nhermau cyfarfodydd y swyddogion gweithredol a'r prif weithredwyr. Fodd bynnag, gan fod rhai o'r fframweithiau llywodraethu wedi'u hatal dros dro yn sgil y pandemig, mae angen gwneud rhagor o waith i sefydlu'r trefniadau hyn yn llawn ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, a sicrhau eu bod yn effeithiol.

12 Mae'r trefniadau ar gyfer nodi a rheoli risg wedi'u hatgyfnerthu. Mae cryn waith wedi'i wneud ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd i roi'r strategaeth rheoli risg newydd ar waith, ac mae'r strategaeth hon bellach ar waith. Mae'r prosesau ar gyfer rheoli, nodi a lliniaru risg wedi gwella. Ar lefel weithredol, mae'r Grwpiau Ardal Integredig wedi gwneud cyfraniad effeithiol drwy adolygu risgiau yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau bod darlun cywir a chyfredol o risgiau bellach yn cael ei gyflwyno. Er gwaethaf cynnydd cynnar, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y caiff risgiau mwyaf difrifol y Grwpiau Gwasanaethau Clinigol eu huwchgyfeirio'n briodol i gofrestrau risg y Grwpiau Ardal Integredig.

13 Mae'r broses o reoli digwyddiadau, pryderon a chwynion wedi gwella. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a llywodraethu Datix[3] yn gwella, ac mae tystiolaeth bod y wybodaeth yn y system bellach yn cael ei defnyddio'n fwy effeithiol gan y swyddogion gweithredol a'r prif weithredwyr. Erys rhai heriau o hyd mewn perthynas â dadansoddi data yn y system bresennol, ond dylai system newydd Unwaith i Gymru helpu yn hyn o beth pan gaiff ei rhoi ar waith ym mis Gorffennaf 2021. Mae gwaith i wella'r broses o reoli cwynion a digwyddiadau yn parhau, gydag adnoddau ychwanegol bellach ar waith i gefnogi'r timau pryderon a chwynion, a buddsoddiad yn adnoddau'r Grwpiau Ardal Integredig. Er bod yr adnoddau hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad sylweddol o gwynion a digwyddiadau y mae angen ymateb iddynt, mae'r cynnydd yn hyn o beth wedi arafu yn sgil ymateb y Bwrdd Iechyd i'r pandemig, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud rhagor i sicrhau ei fod yn nodi'n llawn yr hyn a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau.

14 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella diwylliant a dysgu sefydliadol. Lansiodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau ym mis Hydref 2020. Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith y fframwaith, mae arwyddion calonogol ers ei gyflwyno. Lluniwyd y fframwaith ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys staff, rhanddeiliaid a'r gymuned leol. Er bod cynlluniau ar waith i atgyfnerthu prosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer dysgu sefydliadol, e.e. sefydlu'r fforwm Gwrando a Dysgu a Rennir, mae'n amlwg bod hyn yn faes y bydd angen rhoi ffocws a sylw parhaus iddo er mwyn cynnal y gwelliannau.

3 System ar-lein yw Datix, a ddefnyddir i reoli'r broses o gofnodi digwyddiadau, cofrestrau risg, cwynion a rhybuddion diogelwch

15 I gloi, yn wyneb y pandemig, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o waith i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn 2019. Gwelsom gryn ymrwymiad, ysgogiad a brwdfrydedd ymhlith y staff y gwnaethom gyfweld â nhw, ac awydd clir i wneud pethau'n iawn. Mae angen cynnal yr egni hwn er mwyn ymgorffori'r gwaith a wnaed hyd yma, ac adeiladu arno.

16 Er gwaethaf y cynnydd da rydym wedi ei gydnabod drwy ein hadroddiad dilynol, mae gwaith i'w wneud o hyd ym mhob un o'r meysydd lle nodwyd argymhellion yn 2019. Felly, dylai pob un o'r argymhellion barhau ar agor. Byddwn yn parhau i fonitro camau gweithredu'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn, ac yn cytuno ar amseriad unrhyw waith dilynol pellach fel rhan o'n gwaith ymgysylltu rheolaidd â'r Bwrdd Iechyd.

17 Mae gwybodaeth fanylach am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion unigol a wnaed yn 2019 wedi'i nodi yn adrannau canlynol yr adroddiad.

# Argymhellion

## Argymhellion ar gyfer gwella'r ffocws strategol ar ansawdd, diogelwch cleifion a risg

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| A1 Rhaid i'r Bwrdd Iechyd gytuno ar flaenoriaethau a chanlyniadau ansawdd sefydliadol i gefnogi ansawdd a diogelwch cleifion. Dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn fersiwn wedi'i diweddaru o Strategaeth Ansawdd y Bwrdd Iechyd. | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diffinio ystyr gofal o ansawdd uchel, ond ohewrydd pwysau'r pandemig mae cryn oedi wedi bod o ran ei uchelgais i gytuno ar flaenoriaethau ansawdd, a'u nodi mewn strategaeth ansawdd.** Yn 2019, gwelsom nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi blaenoriaethau ansawdd sefydliadol. Mae Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd (y Fframwaith Llywodraethu Ansawdd) a roddwyd ar waith ym mis Mehefin 2020, yn diffinio gofal o ansawdd uchel, sef gofal diogel, amserol, effeithiol, effeithlon, cyfartal ac sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae'r parthau hyn yn darparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i nodi blaenoriaethau ansawdd sefydliadol, a mesur eu llwyddiant.<br><br>Yn ystod 2020, roedd y Bwrdd Iechyd wedi bwriadu datblygu Strategaeth Blaenoriaethau Ansawdd tair blynedd mewn partneriaeth â'r gymuned leol, staff, a rhanddeiliaid allweddol eraill. Penododd y Bwrdd Iechyd Gyfarwyddwr Cyswllt Meddygol, gyda chyfrifoldeb am wella ansawdd, i fynd ar drywydd y gwaith o ddatblygu'r strategaeth, gan ymgysylltu â'r tri Grŵp Ardal Integredig a mynd ati i lunio'r strategaeth ar y cyd â nhw. Fodd bynnag, bu'r cynnydd yn araf iawn oherwydd argaeledd timau ardal a'r ffaith bod staff wedi'u hadleoli i ymateb i'r pandemig. Serch hynny, mae'n bwysig mynd ati nawr i sicrhau cynnydd mewn perthynas â datblygu'r Strategaeth Blaenoriaethau Ansawdd. Ers cwblhau ein gwaith maes, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fwriad i integreiddio'r Strategaeth Ansawdd yn Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig y Bwrdd Iechyd, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi erbyn hydref 2021. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
| --- | --- |
| A2 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd ati mewn modd strategol a chynlluniedig i wella'r trefniadau rheoli risg ym mhob un o'i wasanaethau. Rhaid i hyn sicrhau y caiff yr holl strategaethau a fframweithiau allweddol eu hadolygu, eu diweddaru a'u cysoni i adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu diweddaraf, yn benodol:<br><br>a Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn adlewyrchu amcanion y Cynllun Tymor Canolig Integredig presennol a blaenoriaethau ansawdd y Bwrdd Iechyd.<br><br>b Mae'r strategaeth rheoli risg yn adlewyrchu'r trefniadau goruchwylio ar gyfer Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, y fframwaith llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion, ac unrhyw newidiadau i drefniadau rheoli risg y Bwrdd Iechyd. | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da yn y maes hwn drwy gyflwyno'r strategaeth rheoli risg newydd, sy'n adlewyrchu'r model gweithredu newydd ac sy'n gyson â'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd.**<br><br>**Mae'r Fframwaith Sicrwydd a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd yn parhau i esblygu er mwyn adlewyrchu'r amcanion strategol a'r model gweithredu newydd.**<br><br>Ym mis Ionawr 2020, cymeradwywyd Fframwaith Sicrwydd newydd y Bwrdd. Ystyriwyd hyn yn gam interim cyn ymgymryd â'r gwaith sylweddol y mae angen ei wneud mewn perthynas â phrosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli a nodi risg, cytuno ar barodrwydd y Bwrdd Iechyd i dderbyn risg, a chytuno ar y prif risgiau.<br><br>Yn ystod 2020, cymerodd y Bwrdd Iechyd y cam cyntaf i ddiweddaru'r Fframwaith Sicrwydd presennol drwy gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i drefniadau rheoli risg. Ym mis Medi 2020, cytunodd y Bwrdd Iechyd ar y bygythiadau allweddol a'r prif risgiau a fyddai'n effeithio ar ei allu i gyflawni ei amcanion strategol, a chafwyd cytundeb ffurfiol gan y Bwrdd ynghylch ei barodrwydd presennol i dderbyn risg. Ym mis Tachwedd 2020, cafodd y Bwrdd y gofrestr risgiau sefydliadol newydd yn dilyn adolygiad ar raddfa fawr o risgiau gan y Grwpiau Ardal Integredig a'r adrannau corfforaethol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiffinio'r camau lliniaru a nodi'r mesurau rheoli a'r ffynonellau sicrwydd. Pan fydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu llunio Fframwaith Sicrwydd manylach. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi nodi ei fwriad i ddatblygu Adroddiad Sicrwydd y Bwrdd erbyn diwedd 2021, gan nodi manylion y prif risgiau yn hytrach na'r risgiau gweithredol, fel y'u diffinnir ar hyn o bryd yn y gofrestr risgiau. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| c Rhaid i'r fframwaith llywodraethu ansawdd a diogelwch cleifion gefnogi blaenoriaethau'r Strategaeth Ansawdd a bod yn gyson â'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau.<br><br>d Mae cylch gorchwyl y pwyllgorau perthnasol, gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg[4], a'r Cyfarfodydd Busnes Clinigol [5], yn adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu diweddaraf a nodir yn y strategaethau a'r fframweithiau perthnasol. | **Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o drefniadau rheoli risg y Bwrdd Iechyd ers ein hadolygiad yn 2019.** Cytunodd y Bwrdd ar y strategaeth rheoli risg a'r polisi Rheoli Risg diwygiedig ym mis Ionawr 2021, ar ôl cryn waith gan y Bwrdd Iechyd i adolygu ei drefniadau ac adlewyrchu'r model gweithredu lleol newydd. Mae'r strategaeth newydd yn nodi'n glir y broses rheoli risg o wasanaethau i'r bwrdd fel y'i disgrifir yn y Fframwaith Ansawdd, Diogelwch Cleifion a Llywodraethu, yn ogystal â nodi'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer proses Adroddiad Sicrwydd y Bwrdd. Cafodd y Weithdrefn asesu risg hefyd ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli ym mis Ionawr 2021, gan gefnogi ymhellach y dull a'r broses o reoli risg yn y Bwrdd Iechyd.<br><br>**Gwnaed cynnydd sylweddol i ddatblygu'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a'i roi ar waith, ond mae angen gwneud rhagor o waith i'w ymgorffori'n llawn yn y sefydliad.** Ers ein hadolygiad, bu nifer o fersiynau o'r fframwaith, ac mae'r fersiwn ddiweddaraf yn nodi'r strwythurau a'r prosesau y mae angen iddynt fod ar waith yn weithredol ac yn strategol yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r fframwaith yn nodi diffiniad clir o ofal o ansawdd uchel (gweler cynnydd yn erbyn argymhelliad 1) ac mae'n gyson â Gwerthoedd ac Ymddygiadau'r sefydliad. Yn ystod y pandemig, bu'n haws rhoi'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd ar waith ar lefel y sefydliad a lefel y Grwpiau Ardal Integredig, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgorffori'r strwythurau llywodraethu yng Ngrwpiau Gwasanaethau Clinigol y Grwpiau Ardal Integredig.<br><br>**Mae cylch gorchwyl y pwyllgorau perthnasol wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r cynllun dirprwyo a'r fframwaith gweithredu newydd.** Ym mis Ionawr 2021, diwygiwyd y cylch gorchwyl a chynllun dirprwyo'r Bwrdd Iechyd i adlewyrchu'r trefniadau rheoli risg wedi'u diweddaru. Achubodd y Bwrdd Iechyd ar y cyfle i ddiweddaru a diwygio cylch gorchwyl pob pwyllgor yn sgil y newidiadau i'r fframwaith llywodraethu yn dilyn eich adolygiad yn 2019. Bydd y rhain bellach yn destun adolygiad blynyddol fel rhan o'r prosesau llywodraethu parhaus ac yn rhan o gylchoedd busnes Pwyllgorau'r Bwrdd. |

4 Ym mis Rhagfyr 2019, cafodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg ei ailenwi'n Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a chafodd y Pwyllgor Archwilio ei ailenwi'n Bwyllgor Archwilio a Risg.

5 Diddymwyd Cyfarfodydd Busnes Clinigol ar ôl cyflwyno'r model gweithredu newydd ym mis Ebrill 2020.

# Trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi ansawdd a diogelwch cleifion

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
| --- | --- |
| A3 Sicrhau bod cydgyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch cleifion ym mhob rhan o'r tîm gweithredol a rolau clir ar gyfer arweinwyr proffesiynol:<br>a Atgyfnerthu rôl y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwyr Clinigol mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion.<br>b Egluro rolau, cyfrifoldebau a threfniadau llywodraethu mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion yn y cyfarwyddiaethau.<br>c Sicrhau bod digon o gapasiti a chefnogaeth mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion ar lefel gorfforaethol a lefel y cyfarwyddiaethau. | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i atgyfnerthu cyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion ym mhob rhan o'r tîm gweithredol a'i Grwpiau Ardal Integredig.**<br>**Caiff cydgyfrifoldeb am Ansawdd a Diogelwch bellach ei rannu rhwng y pedwar cyfarwyddwr gweithredol clinigol.** Mae gan y Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol, y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd a'r Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd gyfrifoldebau penodol am ansawdd a diogelwch, yn ogystal ag arweinyddiaeth broffesiynol ar draws eu priod ddisgyblaethau, gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol yn cyflawni rôl yr arweinydd gweithredol. Mae hyn wedi'i nodi'n glir yn Fframwaith Llywodraethu Ansawdd y Bwrdd Iechyd. Mae capasiti'r cyfarwyddwyr gweithredol clinigol wedi'i lesteirio ers nifer o flynyddoedd yn sgil yr anhawster i recriwtio Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd parhaol. Ers ein hadolygiad diwethaf, recriwtiodd y Bwrdd Iechyd yn helaeth, ond daeth y swydd hon yn wag unwaith eto. Mae'r swydd hon bellach wedi'i llenwi dros dro gan Gyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sy'n gweithio ar draws y ddau Fwrdd Iechyd, ac mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn recriwtio Cyfarwyddwr Clinigol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol parhaol er mwyn sicrhau arweinyddiaeth a chapasiti proffesiynol.<br>**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion yn y Grwpiau Ardal Integredig newydd a'r Grwpiau Gwasanaethau Clinigol.** Mae'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd yn gyson â'r model gweithredu a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2020. Caiff cyfrifoldebau ar lefel weithredol am ansawdd a diogelwch cleifion eu diffinio gan y Fframwaith Llywodraethu Ansawdd, sy'n nodi'r broses a'r strwythur ar gyfer y Grwpiau Ardal Integredig a'u priod Grwpiau Gwasanaethau Clinigol. Mae'r model gweithredu newydd yn helpu i wella'r ffocws ar ansawdd. Er enghraifft, caiff y Grwpiau Ardal Integredig eu dwyn i gyfrif gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Cyfarwyddwr Nyrsio, y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Prif Weithredwr am ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf o ansawdd uchel, yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn capasiti ychwanegol i gefnogi ansawdd a diogelwch cleifion ar lefel gorfforaethol a lefel y Grwpiau Ardal Integredig.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn rolau newydd i gefnogi ansawdd a diogelwch cleifion. O fewn y tîm rheoli nyrsio, mae'r swyddi newydd yn cynnwys Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Phrofiadau Pobl, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Pennaeth Nyrsio Corfforaethol, ac Uwch-nyrs Safonau Proffesiynol a Sicrhau Ansawdd. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol hefyd wedi creu nifer o rolau newydd ar gyfer Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt, er mwyn arwain y gwaith o ddatblygu'r strategaeth ansawdd a'r archwiliad clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi creu tîm Gwella Ansawdd ac wedi penodi Cyfarwyddwr Meddygol Cyswllt Gwella Ansawdd yn ddiweddar, a dechreuodd y Cyfarwyddwr Gwelliant yn ei swydd ym mis Ebrill 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wrthi'n sefydlu'r systemau a'r seilwaith i gefnogi gwaith gwella'r Bwrdd Iechyd. Mae Cyfarwyddwyr Nyrsio newydd eu penodi ar gyfer pob un o'r tri Grŵp Ardal Integredig, ac maent yn gyfrifol am gefnogi'r trefniadau llywodraethu ansawdd, sy'n gyfrifoldeb a rennir rhwng y uwch-arweinwyr y tri Grŵp Ardal Integredig. At hynny, mae gan bob Grŵp Ardal Integredig Bennaeth Ansawdd a Diogelwch i gefnogi'r agenda llywodraethu ansawdd. Eu rôl yw cefnogi gwaith ansawdd a diogelwch cleifion yn y Grwpiau Ardal Integredig, gan gysylltu â'r Tîm Gofal a Diogelwch Cleifion canolog a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Diogelwch a Diogelu. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae Grwpiau Ardal Integredig lleol hefyd wedi dechrau recriwtio staff llywodraethu ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'u problemau capasiti, gan fod maint y timau'n amrywio ar draws y Grwpiau Ardal Integredig. Mae gan Grwpiau Ardal Integredig Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr/Cynon hefyd Bennaeth Bydwreigiaeth newydd ar gyfer eu priod unedau obstetreg, dan arweinyddiaeth ein Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Ionawr 2020. |

# Argymhellion ar gyfer trefniadau craffu sefydliadol ar ansawdd a diogelwch cleifion

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| A4 Mae angen adolygu rolau a swyddogaeth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben a'i fod yn adlewyrchu'r Strategaeth Ansawdd, y Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion, a risgiau corfforaethol [sefydliadol] allweddol mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion. Dylai hyn gynnwys y canlynol:<br>a Rhoi'r is-grwpiau i gefnogi'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg ar waith, gan sicrhau bod digon o gymorth (gweinyddol a chorfforaethol) ar gael i alluogi'r grwpiau hyn i weithio'n effeithiol.<br>b Gwelliannau i gynnwys, eglurder, tryloywder a dulliau dadansoddi gwybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg. | **Er bod rhai agweddau ar yr argymhelliad hwn wedi'u disodli, gwnaed cynnydd da i sefydlu'r trefniadau adrodd a'r fframwaith llywodraethu newydd.**<br>**Rhoddwyd y gorau i'r cynlluniau ar gyfer rhoi is-grwpiau ar waith i gefnogi'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg[6] ar ôl diwygio'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion, felly mae'r elfen hon o'r argymhelliad wedi'i disodli.** Mae'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion wedi esblygu mewn ymateb i'r model gweithredu newydd a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2020. Mae trefniadau llywodraethu ansawdd wedi'u sefydlu ym mhob un o'r Grwpiau Ardal Integredig, ac mae pob un ohonynt yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar faterion ansawdd a diogelwch cleifion.<br>**Mae ansawdd y wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch at ddibenion sicrwydd a chraffu yn gwella.** Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau rheolaidd ar ansawdd a diogelwch cleifion gan bob Grŵp Ardal Integredig, ynghyd ag adroddiad ar Ddiogelwch Cleifion ac Ansawdd ar lefel y sefydliad cyfan. Mae'r adroddiadau hyn yn ymdrin â phob lleoliad gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau acíwt, sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl. Maent hefyd yn cynnwys cyfres o fetrigau ansawdd ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan. Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth eang o ddangosyddion ansawdd ac maent yn golygu bod modd craffu ar brofiadau cleifion ym mhob un o'r Grwpiau Ardal Integredig mewn templed safonol sy'n golygu bod modd gwneud cymariaethau. Mae'r cynnwys yn ymdrin â phob maes gwasanaeth, ac anogir Grwpiau Ardal Integredig i nodi digwyddiadau, honiadau a chwynion (pryderon), a risgiau, a cheir naratif priodol i roi sicrwydd. Caiff yr adroddiadau eu cyflwyno gan dimau'r Grwpiau Ardal Integredig eu hunain, sy'n galluogi aelodau Annibynnol i oruchwylio a chraffu. |

6 Cafodd y pwyllgor hwn ei ddisodli ym mis Rhagfyr 2019 gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| c Ffocws ar sicrhau y caiff y Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch Cleifion ei ddefnyddio i wella trefniadau goruchwylio ansawdd a diogelwch cleifion ym mhob rhan o'r sefydliad, gan gynnwys gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr. Dylai hyn gael ei ategu gan yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer cyfathrebu mewnol a hyfforddiant ac i sicrhau y caiff ei roi ar waith yn brydlon. | Canfu ein harsylwadau ar gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch lefelau priodol o graffu a her, gydag ymatebion gonest gan swyddogion. Mae'r gwelliannau i'r adroddiadau ansawdd yn gadarnhaol ac maent yn cynnwys defnyddio gwybodaeth am dueddiadau, ond nid ydynt yn cynnwys gosod targedau na throthwyon lle y gellir gwneud rhagor o waith neu uwchgyfeirio, er enghraifft os bydd nifer yr achosion o friwiau pwyso mewn un Grŵp Ardal Integredig yn uwch na'r disgwyl. Ceir uchelgais i newid i ddangosfyrddau byw er mwyn gwella'r broses o ddadansoddi a dehongli data, ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i fwrw ymlaen â hyn erbyn diwedd 2021. Mae cynlluniau hefyd wedi'u datblygu gan y Gyfarwyddiaeth Nyrsio i gyflwyno adran 'ffocws ar' yn adroddiad Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd er mwyn mynd i'r afael â'r materion y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt a'u triongli, a chaiff y rhain eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Gorffennaf 2021. |
| A5 Rhaid i aelodau annibynnol gael eu cefnogi'n briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau drwy raglen sefydlu ddigonol a chyfleoedd datblygu parhaus fel y gallant graffu'n effeithiol ar y wybodaeth a gyflwynir iddynt. | **Caiff Aelodau Annibynnol gymorth priodol drwy raglen sefydlu a chyfleoedd datblygu parhaus i'w cefnogi i gyflawni eu rôl craffu.** Nododd ein hadolygiad yn 2019 gyfleoedd i wella rhaglenni sefydlu a datblygu ar gyfer Aelodau Annibynnol er mwyn cefnogi eu gwaith a'u heffeithiolrwydd. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno rhaglen sefydlu fwy strwythuredig ar gyfer Aelodau Annibynnol, sy'n ategu proses sefydlu Cymru gyfan Llywodraeth Cymru. Caiff Aelodau Annibynnol eu cefnogi'n lleol gan y tîm llywodraethu corfforaethol. Yn ystod 2020, cafodd pob Aelod Annibynnol arfarniad gyda Chadeirydd y Bwrdd Iechyd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu. Nodwyd anghenion hyfforddi a chofnodwyd Cynlluniau Datblygu Personol (CDPau). Cynhaliwyd rhaglen o werthusiadau ac arsylwadau allanol ar gyfer Aelodau Annibynnol, a rhoddwyd adborth iddynt ar eu perfformiad. Mae gwaith hefyd wedi'i wneud mewn perthynas ag ymgysylltu a chydberthnasau, adeiladu tîm, hyfforddi, gosod cyfeiriad, craffu a'r gydberthynas rhwng y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae'r gwerthusiad allanol cychwynnol o'r gwaith hwn wedi dangos gwelliannau cadarnhaol mewn meysydd megis craffu ar wybodaeth, a chydberthnasau gwell rhwng aelodau'r Bwrdd. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|---|
| A6 | Mae angen rhoi ffocws digonol ar gasglu, dadansoddi, monitro a dysgu o brofiadau cleifion ym mhob rhan o'r Bwrdd, a darparu adnoddau digonol ar gyfer hynny. Rhaid i hyn gynnwys defnyddio adborth amser real gan gleifion. | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ysgogi nifer o welliannau mewn perthynas â'r argymhelliad hwn, er mwyn gwella'r ffordd y mae'n dysgu o brofiadau cleifion. Fodd bynnag, mae'r ymateb i'r pandemig wedi ei atal rhag datblygu'r gwelliannau hyn, a'u hymgorffori.** Mewn ymateb i'n hadolygiad yn 2019, dechreuodd y Bwrdd Iechyd ddatblygu Strategaeth Profiad y Claf tair blynedd gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r gwaith o gwblhau'r strategaeth hon a'i rhoi ar waith wedi'i atal gan yr ymateb i'r pandemig, ac nid ydym wedi cael diweddariad ar gynnydd na dyddiad cwblhau gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â hyn. Bydd angen rhoi sylw i'r gwaith o gwblhau'r strategaeth hon, sy'n sail i'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â phrofiadau cleifion.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi Fforwm Gwrando a Dysgu a Rennir ar waith, a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 17 Chwefror 2021. Sefydlwyd y fforwm fel rhan o fframwaith y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwrando ar bryderon a phrofiadau cleifion neu staff a dysgu ohonynt, ac er mwyn hyrwyddo a chefnogi diwylliant dysgu. Gwnaethom adolygu Cylch Gorchwyl drafft y fforwm, sy'n ymddangos yn briodol. Caiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol a bydd yn cwrdd yn chwarterol, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Rheoli. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ni farnu effeithiolrwydd y fforwm, a'r effaith y mae wedi ei chael ar brofiadau cleifion a'r dysgu.<br><br>Mae straeon cleifion bellach yn rhan reolaidd o gyfarfodydd y Bwrdd a'i is-bwyllgorau, ac nid oedd hyn bob amser yn wir yn flaenorol. Mae'r straeon hyn yn rhoi cyfle i aelodau'r Bwrdd ddysgu am brofiadau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Yn sgil y pandemig, mae ymweliadau diogelwch cleifion aelodau gweithredol ac annibynnol y Bwrdd, sy'n cynnwys ymweld â wardiau ac ardaloedd cleifion, wedi'u hatal. Fodd bynnag, mae cynlluniau i ailgychwyn y rhaglen o ymweliadau maes o law, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| | Mae'r Grwpiau Ardal Integredig wedi cyflwyno arweinwyr dynodedig i reoli adborth gan gleifion, pryderon a digwyddiadau. Mae hyn wedi gwella'r broses o adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, yn ogystal â chyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau Cleifion lleol y Grwpiau Ardal Integredig. Gwelsom dystiolaeth i ddangos y caiff themâu a thueddiadau eu nodi, ond cydnabyddir y gellid gwneud mwy i rannu ac ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd ar draws y Grwpiau Ardal Integredig.<br><br>Rhoddodd y Bwrdd Iechyd adnodd Prawf Ffrindiau a Theulu ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn casglu a chofnodi adborth amser real gan gleifion. Cafodd ei dreialu ar ddechrau 2020, a'i gyflwyno wedi hynny ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, cafodd ei atal yn sgil y pandemig ac ym mis Ebrill 2021, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi system genedlaethol newydd ar waith a fydd yn monitro adborth ar brofiadau cleifion, sef 'Civica'. Mae ymrwymiad i sicrhau y caiff adborth gan gleifion ei gofnodi, a dylid gweld effaith hyn yn y dyfodol agos. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| A7 Mae angen gwella gwelededd a goruchwyliaeth mewn perthynas â gweithgareddau archwilio clinigol a gwella, ar lefel y cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys nodi allanolynnau a manteisio ar gyfleoedd i rannu'r dysgu a'r arferion da. | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â gwelededd a goruchwyliaeth mewn perthynas ag archwilio clinigol, ond gellid targedu hyn yn well at feysydd o risg sefydliadol.** Ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd gyllid ychwanegol i atgyfnerthu gallu'r Adran Gwybodeg Ansawdd ac Archwilio Clinigol i fonitro cydymffurfiaeth mewn perthynas â chyfranogiad, a gwella ansawdd y data a ddefnyddir ar gyfer pob archwiliad cenedlaethol. Mae'r cyllid ychwanegol wedi cynyddu lefelau staffio drwy benodi Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer Archwilio Clinigol, rheolwr archwilio clinigol dynodedig i arwain ar gydymffurfiaeth â'r rhaglen archwilio genedlaethol, a Rheolwr Gwybodeg Ansawdd, gyda chyfrifoldeb am wella ansawdd data clinigol yn systemau'r Bwrdd Iechyd, a Dirprwy Bennaeth a Nyrs Arweiniol ar gyfer Effeithiolrwydd Clinigol. Mae'r adnoddau ychwanegol yn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddefnyddio canfyddiadau'r archwiliad i lywio mentrau gwella ansawdd ac ailddylunio gwasanaethau, megis sefydlu prif ganolfannau trawma yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty'r Tywysog Siarl, mewn partneriaeth â'r Grwpiau Ardal Integredig.<br><br>Mae'r gwaith o oruchwylio'r rhaglen archwilio glinigol yn gwella ar lefel strategol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cael blaengynllun archwilio clinigol, ac ym mis Chwefror 2021, cafodd adroddiad diweddaru chwarterol hefyd, yn amlinellu cynnydd y cynllun, a hynny am y tro cyntaf. Fel rhan o'i flaengynllun gwaith, mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn bwriadu cael diweddariadau chwarterol ar y cynllun chwarterol clinigol. Byddem yn disgwyl i'r diweddariadau hyn nodi canlyniadau'r archwiliad a'r camau sy'n cael eu cymryd i rannu'r gwersi a ddysgwyd, a darparu ffynhonnell sicrwydd i'r pwyllgor ar ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir. Mae cyfle hefyd i dargedu archwilio clinigol at feysydd lle ceir risg sefydliadol, megis effaith Adran Achosion Brys orlawn ar gleifion. |

# Argymhellion i wella'r trefniadau ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion ar lefel y cyfarwyddiaethau

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| A8 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro atebolrwydd a chyfrifoldebau am ansawdd a diogelwch cleifion o fewn y cyfarwyddiaethau. Rhaid i hyn gynnwys adolygu rôl Penaethiaid Nyrsio mewn perthynas â rheoli'r safle ac ansawdd a diogelwch cleifion. | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd mewn perthynas ag egluro atebolrwydd a chyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch cleifion ar draws y Grwpiau Ardal Integredig a'u Grwpiau Gwasanaethau Clinigol, ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau y caiff y gwelliannau hyn eu hymgorffori.** Atgyfnerthwyd atebolrwydd a chyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch cleifion ar draws y Grwpiau Ardal Integredig drwy gyflwyno cyfarwyddebau priodol mewn llythyrau atebolrwydd a anfonir gan y Prif Weithredwr at y Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Mae'r llythyrau'n pwysleisio'r angen am ansawdd a gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, ac maent yn nodi'n briodol bod Grwpiau Ardal Integredig a Grwpiau Gwasanaethau Clinigol yn atebol am ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn unol â'r fframwaith ansawdd, a bod arweinyddiaeth glinigol, wedi'i hategu gan reolaeth gref, yn hanfodol.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i atgyfnerthu arweinyddiaeth glinigol ym mhob rhan o'r sefydliad, gyda mwy o bwyslais ar ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys adolygu atebolrwydd a chyfrifoldeb y Penaethiaid Nyrsio ym mhob Grŵp Ardal Integredig mewn perthynas â rheoli'r safle ac ansawdd a diogelwch. Yn 2019, nodwyd bod y Pennaeth nyrsio yn gyfrifol am nifer o faterion anghlinigol a materion yn ymwneud ag ystadau. Hefyd, yn sgil ysgwyddo'r cyfrifoldeb am Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, dim ond ar ddau o'r tri safle acíwt yr oedd Pennaeth Nyrsio parhaol mewn swydd (Merthyr a Chynon a Rhondda a Taf Elái) ac roedd anghysondebau o ran eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, ers rhoi'r tri Grŵp Ardal Integredig ar waith, mae rôl Pennaeth Nyrsio bellach wedi'i chreu ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae atebolrwydd a chyfrifoldebau'r rôl hon bellach wedi'u diffinio'n glir, ac maent yn gyson ym mhob un o'r Grwpiau Ardal Integredig. Hefyd, gwnaed rhagor o waith recriwtio i gefnogi ansawdd a diogelwch, gan benodi Pennaeth Nyrsio, dirprwy Bennaeth Nyrsio a Phennaeth Ansawdd a Diogelwch dynodedig ar gyfer pob Grŵp Ardal Integredig. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
| --- | --- |
| | Mae pob Grŵp Ardal Integredig yn cynnal cyfarfodydd Diogelwch a Phrofiad Cleifion, wedi'u cadeirio gan Gyfarwyddwr Nyrsio'r Grŵp, er mwyn rhoi sicrwydd. Mae hyn yn ddatblygiad cadarnhaol, er ei fod yn parhau i ddatblygu, a chanfu ein harsylwadau fod angen rhoi mwy o sylw i feysydd megis Atal a Rheoli Heintiau. Fodd bynnag, nid yw'r Fframwaith Llywodraethu Ansawdd yn nodi'n glir y trefniadau llywodraethu ansawdd ar gyfer y Grwpiau Ardal Integredig, sy'n rhan o bob Grŵp Ardal Integredig. Ni fu'n bosibl cynnal rhai cyfarfodydd llywodraethu ar lefel y Grwpiau Gwasanaethau Clinigol oherwydd y pwysau ar adnoddau clinigol yn ystod y pandemig. Hefyd, canfu archwiliad diweddar yr adran Archwilio Mewnol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Cymunedol ac Oedolion nad oedd trefniadau llywodraethu'r Grwpiau Gwasanaethau Clinigol yn glir, a bod diffyg eglurder ynghylch y ffordd y maent yn gweithredu. Mae hwn yn faes y mae angen ei atgyfnerthu. At hynny, er bod atebolrwydd a chyfrifoldeb Penaethiaid Nyrsio wedi'u nodi'n glir, ymddengys fod gorddibyniaeth ar y Penaethiaid Nyrsio i gynrychioli safbwynt clinigol cyffredinol yn ystod cyfarfodydd ansawdd a diogelwch allweddol, heb fawr ddim mewnbwn gan dimau meddygol. Yn sgil y pandemig, bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ohirio ei waith ar y rhaglen datblygu arweinwyr a rheolwyr clinigol. Mae hyn wedi rhwystro cynnydd yn nhermau ymgorffori'r agenda ansawdd a diogelwch ymhellach mewn Grwpiau Gwasanaethau Clinigol. Mae angen rhoi sylw i'r mater er mwyn sicrhau y caiff cyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch eu dangos gan staff nyrsio a staff meddygol. Cafodd rhai o'r trefniadau ansawdd a llywodraethu ffurfiol a sefydlwyd gan y Fframwaith Llywodraethu Ansawdd eu hatal dros dro yn ystod y pandemig diweddar, ac maent wedi'u hadfer yn ddiweddar, felly bu'n anodd cynnal adolygiad llawn o'r prosesau. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, mae'n amlwg bod y gwelliannau hyn yn dal i fod ar gam cynnar a bod angen rhoi sylw iddynt o hyd er mwyn sicrhau y cânt eu hymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad. \ |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| A9 Rhaid adolygu ffurf a swyddogaeth pwyllgorau llywodraethu'r cyfarwyddiaethau a'r Cyfarfodydd Busnes Clinigol er mwyn sicrhau bod ganddynt<br>a Gylch gorchwyl clir ac aelodaeth briodol, ac y caiff y cyfarfodydd eu cynnal yn rheolaidd.<br>b Ffocws digonol ar wybodaeth mewn perthynas â materion ansawdd a diogelwch cleifion a chamau gweithredu, a dadansoddi a chraffu'n ddigonol ar y wybodaeth honno.<br>c Eglurder ynghylch rôl a phwerau gwneud penderfyniadau'r Cyfarfodydd Busnes Clinigol. | **Mae'r trefniadau llywodraethu ar lefel weithredol wedi'u hatgyfnerthu. Ers ein hadolygiad yn 2019, diddymwyd Cyfarfodydd Buses Clinigol yn sgil cyflwyno'r model gweithredu newydd. Felly, mae'r argymhelliad hwn wedi'i ddisodli.** Fel y nodwyd yn flaenorol, ym mis Ebrill 2020, gwnaeth y Bwrdd Iechyd newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'n trefnu ac yn rheoli ei fusnes, yn benodol sefydlu'r tri Grŵp Ardal Integredig a arweinir yn glinigol. Disodlwyd proses y Cyfarfodydd Busnes Clinigol.<br><br>Bellach, cynhelir goruchwyliaeth weithredol reolaidd o'r Grwpiau Ardal Integredig drwy adolygiadau perfformiad y Grwpiau, a gynhelir gan y tri Grŵp Ardal Integredig a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol, y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn os ydynt ar gael. Caiff y cyfarfodydd hyn eu cefnogi gan bartneriaid busnes y Grwpiau Ardal Integredig ym maes ansawdd a diogelwch, y gweithlu, cynllunio a chyllid. Sicrheir cysondeb y cyfarfodydd hyn drwy ddefnyddio pecyn o sleidiau templed sy'n ymdrin â gwybodaeth am ansawdd, cwynion a digwyddiadau, risgiau, cyllid, absenoldeb oherwydd salwch a pherfformiad. Mae'r cyfarfodydd hyn yn welliant ar y Cyfarfodydd Busnes Clinigol, gyda chylch gorchwyl clir a ffocws digonol ar wybodaeth am faterion ansawdd a diogelwch. Mae Cyfarwyddwyr y Grwpiau Ardal Integredig hefyd yn aelodau ffurfiol o'r Bwrdd Rheoli[7], sy'n eu galluogi i uwchgyfeirio materion a phryderon.<br><br>Ar adeg ein gwaith dilynol, nid oedd cofnodion na chamau gweithredu adolygiadau Perfformiad y Grwpiau Ardal Integredig yn cael eu rhannu'n ffurfiol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, ac mae angen atgyfnerthu trefniadau goruchwylio'r Bwrdd Rheoli mewn perthynas â materion a godir ar lefel y Grwpiau Ardal Integredig, a chymryd camau yn eu cylch, gan y byddai hyn yn gwella eglurder penderfyniadau. Fodd bynnag, yn sgil y pandemig, cafodd nifer o gyfarfodydd adolygu Perfformiad y Grwpiau Ardal Integredig a gynlluniwyd eu hatal dros dro, gan ailgychwyn ym mis Mawrth 2021 wrth i'r Bwrdd Iechyd ddod allan o'r cyfnod ymateb brys i'r pandemig. Felly, mae angen mwy o amser i wireddu manteision y broses hon yn llawn. |

7 Tîm gweithredol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yw'r Bwrdd Rheoli, ac mae'n cwrdd bob deufis i drafod y ddarpariaeth weithredol ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd.

# Argymhellion i wella'r broses o nodi a rheoli

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|---|
| A10 | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod systemau rheoli risg clir a chynhwysfawr ar lefel y cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol, gan gynnwys adolygu a phoblogi cofrestrau risg. Dylai hyn gynnwys eglurder ynghylch uwchgyfeirio risgiau a chyfrifoldebau ar lefel y cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol ar gyfer cofrestrau risg. Rhaid i hyn gael ei adlewyrchu yn y strategaeth risg. | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r pryderon difrifol a nodwyd gennym mewn perthynas â threfniadau rheoli risg, ac wedi buddsoddi mewn cymorth penodol ym maes llywodraethu a risg.** Ers ein hadolygiad yn 2019, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei systemau rheoli risg, ac wedi eu cysoni â'r model gweithredu newydd. Adolygiad o'r bôn i'r brig fu hwn, gan edrych ar drefniadau o wasanaethau i'r bwrdd. Er mwyn sicrhau eglurder, mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi Strategaeth Rheoli Risg newydd ar waith, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2021.<br><br>Gwnaed gwelliannau i gymorth corfforaethol ym maes Rheoli Risg drwy benodi Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg. Mae'r swydd hon yn cefnogi'r cyfarwyddwyr gweithredol, y Grwpiau Ardal Integredig a'r Penaethiaid Ansawdd a Diogelwch Cleifion, er mwyn sicrhau dull cyson o ddisgrifio a sgorio risgiau, llunio cofrestrau risgiau, a nodi camau lliniaru. Mae hyn wedi hwyluso ffocws cynyddol ar risg ac wedi llywio'r gwelliannau a gyflawnwyd.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o risgiau ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd ar lefel gorfforaethol, lefel y Grwpiau Ardal Integredig a lefel y Grwpiau Gwasanaethau Clinigol. Roedd hwn yn ddarn mawr o waith a gynhaliwyd ar adeg pan oedd cryn bwysau ar wasanaethau, a dylid ei ganmol. Ffrwyth y gwaith hwn oedd cofrestr risgiau sefydliadol ddiwygiedig, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. Mae hyn yn welliant sylweddol ers y gofrestr risgiau flaenorol, ond cydnabyddir o fewn y Bwrdd fod angen gwneud rhagor o waith i wella'r mesurau lliniaru a'r camau gweithredu a ddisgrifiwyd. Hefyd, mae rhai agweddau ar gofrestrau risgiau'r Grwpiau Gwasanaethau Clinigol yn dal i gael eu diweddaru, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hadlewyrchu'n gywir yng nghofrestrau'r Grwpiau Ardal Integredig. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| | Mae’r Strategaeth Rheoli Risg yn nodi llwybr clir o’r gwasanaethau hyd at y bwrdd, sy’n dangos y broses ar gyfer uwchgyfeirio risgiau drwy haenau rheoli’r Grwpiau Ardal Integredig fel rhan o’r model gweithredu newydd yn seiliedig ar sgôr risg. Er bod tystiolaeth i ddangos bod risgiau’n cael eu hisgyfeirio lle y bo hynny’n briodol, mae angen gwneud rhagor o waith o hyd mewn perthynas â ble y caiff risgiau sy’n sgorio llai nag wyth eu nodi. Ar adeg ein gwaith dilynol, roedd y Bwrdd Iechyd wedi blaenoriaethu gwaith i gofnodi risgiau sy’n sgorio naw neu fwy ar system Datix, o ystyried yr ymateb parhaus i’r pandemig. Fodd bynnag, lle mae timau Grwpiau Ardal Integredig, Grwpiau Gwasanaethau Clinigol a thimau corfforaethol yn nodi risgiau sy’n sgorio 1-8, caiff y rhain eu nodi ar gofrestrau risg lleol, ac nid ar system Datix. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod risgiau cynnal systemau cyfochrog a’r angen i sicrhau eglurder ynghylch y broses isgyfeirio. Canfu asesiad diweddar yr adran Archwilio Mewnol[8] o un Grŵp Gwasanaethau Clinigol na chaiff pob risg ei huwchgyfeirio’n briodol, gan ddangos unwaith eto yr angen i sicrhau y caiff y gwelliannau a wneir ar lefel y Grwpiau Ardal Integredig eu hymgorffori ar draws y Grwpiau Gwasanaethau Clinigol o hyd. |

8 Adroddiad Archwilio Mewnol

# Argymhellion i wella'r broses o reoli digwyddiadau, pryderon a chwynion

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| A11 Rhaid gwella'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a llywodraethu system DATIX er mwyn sicrhau y caiff ei defnyddio fel adnodd rheoli a dysgu effeithiol. Dylai hyn hefyd gynnwys triongli gwybodaeth mewn perthynas â phryderon, ar lefel y cyfarwyddiaethau ac ar lefel gorfforaethol, a threfniadau ffurfiol ar gyfer nodi a rhannu'r dysgu. | **Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio a llywodraethu system DATIX yn gwella, gyda mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o wybodaeth ar lefel gorfforaethol a lefel y Grwpiau Ardal Integredig yn y sefydliad. Mae angen gwneud rhagor o waith i atgyfnerthu dysgu sefydliadol o ddigwyddiadau, honiadau a chwynion (pryderon).** Bellach, ceir mwy o eglurder ynglŷn â rôl timau Datix y Grwpiau Ardal Integredig yn strwythur y Bwrdd Iechyd, sy'n adrodd drwy'r tîm Iechyd a Diogelwch i Gyfarwyddwr Gweithredol Pobl. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi y caiff y trefniadau atebolrwydd newydd hyn eu hadolygu dros y tri i chwe mis nesaf.<br><br>Bellach, ceir ffocws o'r newydd ar sicrhau bod ansawdd a diogelwch cleifion yn flaenoriaeth. Mae trefniadau ar waith i wella gwaith goruchwylio a chraffu ar lefel y tîm gweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Diogelwch a Diogelu yn cadeirio cyfarfod wythnosol byr i adolygu cwynion a digwyddiadau'r wythnos flaenorol ar y cyd â'r metrigau ansawdd ar gyfer lefelau staffio nyrsys. Ar ddechrau mis Rhagfyr 2020, nododd adroddiad i'r cyfarfod Diogelwch Cleifion wythnosol dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol y bu mwy na 600 o ddigwyddiadau yn ystod y chwe mis blaenorol nad oeddent wedi'u neilltuo ar gyfer ymchwiliad eto. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i fynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn o ymchwiliadau a chwblhau'r meysydd priodol yn y system Datix, gan flaenoriaethu'r rhain yn ôl difrifoldeb y niwed. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi ein hysbysu ei fod, ers ein gwaith, wedi datblygu systemau olrhain ymchwiliadau a digwyddiadau difrifol er mwyn monitro'r broses o reoli digwyddiadau yn well, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau yr achubir ar gyfleoedd i nodi dysgu cynnar yn dilyn digwyddiadau. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| | Mae'r ffordd y caiff y system Datix ei defnyddio wedi gwella, er bod rhai materion yn ymwneud â mynediad at wybodaeth ar lefel y Grwpiau Ardal Integredig, sy'n effeithio ar eu gallu i lunio adroddiadau lleol. Mae tîm Datix yn mynd i'r afael â hyn, ond mae angen gwneud cryn dipyn o waith. Bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi system Unwaith i Gymru ar waith ym mis Gorffennaf 2021.<br><br>Dangosodd gwybodaeth a roddwyd gan y Bwrdd Iechyd na allai enwi'n gywir y staff a allai ymchwilio i ddigwyddiadau a chynnal dadansoddiad o wraidd y broblem. At hynny, mynegodd Cronfa Risg Cymru bryderon yn ddiweddar ynghylch yr amser yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ei gymryd i gwblhau Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau yn unol â gweithdrefnau ad-dalu'r Gronfa. Mae hwn wedi bod yn faes heriol i'r Bwrdd Iechyd oherwydd nifer uchel yr achosion etifeddol a mamolaeth, ac mae'r Gronfa wedi mynegi pryderon ynghylch ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth a gyflwynir gan y Bwrdd Iechyd. Gwnaed rhagor o waith a chynnydd mewn ymateb i hyn, ac mae tasglu wedi'i sefydlu sy'n cynnal cyfarfodydd cynnydd wythnosol, gyda'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymo i gyflwyno'r Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau erbyn 31 Mawrth 2021. Hefyd, dywedwyd wrthym fod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu a lansio ei fodiwl dadansoddi gwraidd y broblem ei hun ers mis Chwefror 2021, sydd wedi ei alluogi i olrhain a monitro presenoldeb yn gywir. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| | Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Diogelwch a Diogelu yn cynnal cyfarfodydd bob pythefnos â Phenaethiaid Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Grwpiau Ardal Integredig, gyda'r nod o sicrhau y caiff camau priodol eu cymryd mewn ymateb i gwynion a digwyddiadau. O fewn y Grwpiau Ardal Integredig, mae'r Cyfarfodydd Ansawdd a Phrofiad Cleifion misol hefyd yn craffu ar wybodaeth o Datix er mwyn ystyried tueddiadau a dadansoddiadau. Mae pob un o'r tri Grŵp Ardal Integredig wedi nodi bod capasiti dadansoddi yn rhwystr i ddefnyddio'r data hyn yn effeithiol, ac felly maent wrthi'n recriwtio pobl i swyddi cymorth dadansoddi. Mae'r Grwpiau Ardal Integredig hefyd wedi nodi bod angen gwneud rhagor o waith i ddiwallu anghenion hyfforddi staff mewn perthynas â DATIX, a sicrhau bod y bobl gywir yn defnyddio'r system. Rhoddodd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Ionawr 2021 sicrwydd bod adborth o waith cofnodi digwyddiadau drwy DATIX yn gwella, ond mae angen gwneud rhagor o waith i wella ansawdd yr adborth a roddir i'r sawl sy'n adrodd.<br><br>Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi sefydlu fforwm Gwrando a Dysgu a Rennir, sy'n adrodd i'r bwrdd rheoli. Rhan o gylch gwaith y fforwm yw goruchwylio fframwaith y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwrando ar bryderon a phrofiadau sy'n gysylltiedig ag ansawdd a chleifion/staff, a dysgu o'r profiadau a'r pryderon hynny. Hefyd, mae'n hyrwyddo diwylliant diogel i gleifion a staff ac yn hwyluso'r broses o ddysgu a rhannu arferion da. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y fforwm ym mis Chwefror 2021, gyda phob Grŵp Ardal Integredig yn cyflwyno themâu, materion a gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau, honiadau a chwynion (pryderon). Er bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol, mae'n rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y fforwm hwn. |

| | Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|---|
| A12 | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff y staff hyfforddiant priodol ar ymchwilio i bryderon a'u rheoli. At hynny, mae angen grymuso staff y cyfarwyddiaethau i berchenogi pryderon a chymryd camau i wella a dysgu. | **Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, mae angen rhoi rhagor o sylw i oruchwylio hyfforddiant yn gorfforaethol, ac ym mhob Grŵp Ardal Integredig.** Nododd ein hadolygiad yn 2019 fod angen gwella'r ffordd y caiff pryderon eu goruchwylio a'u rheoli. Roedd hyn yn cynnwys y prosesau gweithredol ar gyfer ymchwilio i bryderon a dysgu o'r pryderon hynny. Rhoddwyd blaenoriaeth i hyfforddiant ar reoli pryderon, ac mae'r hyfforddiant hwn wedi'i ddarparu ym mhob rhan o'r Bwrdd i unigolion perthnasol sy'n gyfrifol am reoli'r broses pryderon. At hynny, cafodd polisi pryderon y Bwrdd Iechyd hefyd ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Awst 2020. Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer rheoli pryderon. Er na allai'r Grwpiau Ardal Integredig, ar adeg ein gwaith, nodi'n gywir gyfran eu staff a oedd wedi cael hyfforddiant ar ymchwilio i bryderon a digwyddiadau neu ddadansoddi gwraidd y broblem, rydym wedi cael gwybod bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu a lansio ei fodiwl dadansoddi gwraidd y broblem ei hun ers mis Chwefror 2021, gan ei alluogi i olrhain y staff sydd wedi cael yr hyfforddiant hwn.<br><br>Erbyn hyn, ymddengys fod dull gweithredu cyson ac atebolrwydd cliriach mewn perthynas â rheoli pryderon ym mhob Grŵp Ardal Integredig, gyda phryderon yn cael eu rheoli o fewn y Grŵp Gwasanaethau Clinigol perthnasol cyn cael eu cymeradwyo gan y Grŵp Ardal Integredig, a'u cyflwyno wedi hynny i'r tîm pryderon corfforaethol er mwyn cymeradwyo'r ymateb terfynol. Gwelsom enghreifftiau o hyn mewn grwpiau ansawdd, diogelwch a phrofiad ar draws y Grwpiau Ardal Integredig, lle roedd tystiolaeth bod staff ar lefel leol yn cymryd mwy o berchenogaeth a chyfrifoldeb am bryder, ac am wneud gwelliannau lle bo angen. Er mwyn atgyfnerthu prosesau rheoli pryderon ymhellach, mae gwaith recriwtio diweddar wedi cynyddu maint y timau pryderon ardal a chorfforaethol. |

# Argymhellion ar gyfer diwylliant sefydliadol a dysgu

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|---|
| A13 | Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau ei ddatblygu mewn modd amserol, ynghyd â rhaglen ymgysylltu glir ar gyfer ei roi ar waith. | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu a chyflwyno ei Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau, er y bu angen iddo addasu'r amserlenni ar gyfer ei roi ar waith yn sgil y pandemig.**<br>Ar adeg llunio ein hadroddiad yn 2019, roedd y Bwrdd Iechyd yn lansio rhaglen waith i ddatblygu Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau ar gyfer y sefydliad. Cynhaliwyd digwyddiadau gwrando gyda staff, cleifion, a defnyddwyr gwasanaethau rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Chwefror 2020, er mwyn helpu i nodi'r materion y byddai angen i fframwaith o'r fath fynd i'r afael â nhw. Yn sgil y pandemig, cafodd rhagor o waith ar y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau ei ohirio tan fis Mehefin 2020. Fodd bynnag, pan ailgychwynnwyd y gwaith, gallai'r Bwrdd Iechyd ystyried profiadau'r staff wrth ymateb i'r pandemig a chasglu gwybodaeth sylfaenol am lesiant y staff. Casglodd y Bwrdd Iechyd gyfanswm o tua 6,445 o ddarnau o adborth gan staff, rhanddeiliaid a'r gymuned leol, a fu'n sail i'r fframwaith.<br><br>Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ei Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd gyfres o ddigwyddiadau gwrando, gan ymgysylltu â thua 8,000 o bobl, gan gynnwys cleifion a staff. Penodwyd ymgynghorwyr allanol i gefnogi'r gwaith hwn a datblygu'r fethodoleg ymgysylltu. Ymddengys fod y gwaith wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y fframwaith a'r broses o gynllunio ar gyfer Strategaeth Profiad y Claf. Lansiodd y Bwrdd Iechyd y Fframwaith yn ffurfiol ar Ddiwrnod Gwerthoedd y Byd, ar 15 Hydref 2020. Cynhaliwyd sesiwn ryngweithiol fyw, gyda chyflwyniad gan yr Athro Michael West ar arweinyddiaeth dosturiol yn y GIG. Cymerodd mwy na 2,000 o aelodau o'r staff ran yn y digwyddiad. Cafodd y fframwaith hefyd ei gyhoeddi ar fewnrwyd a sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd. |

| **Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019** | **Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021** |
|---|---|
| | Mae cynllun gweithredu manwl ar waith er mwyn ymgorffori'r Gwerthoedd a'r Ymddygiadau, ac mae hyn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Roedd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw yn gadarnhaol ar y cyfan am y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i ymgorffori'r Gwerthoedd a'r Ymddygiadau yn llawn ym mhob rhan o'r sefydliad a gwella profiad cyflogeion.<br><br>Er mwyn helpu i'w hymgorffori, mae'r Bwrdd Iechyd yn diwygio ei raglenni arweinyddiaeth i gynnwys y gwerthoedd a'r ymddygiadau. Mae'r Gwerthoedd a'r Ymddygiadau wedi'u hadlewyrchu yn nogfennau allweddol y Bwrdd Iechyd, ac maent i'w gweld ar ei wefan. Maent hefyd wedi'u hadlewyrchu yng Nghylch Gorchwyl y Grwpiau Ardal Integredig. |
| A14 Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull cryfach o ymdrin â dysgu sefydliadol, sy'n ystyried yr holl gyfleoedd a gyflwynir drwy bryderon, archwiliadau clinigol, adborth gan gleifion a staff, adolygiadau allanol a gwersi a ddysgwyd o waith yn Ysbyty Tywysoges Cymru. | **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau datblygu dull cryfach o ymdrin â dysgu sefydliadol, ond mae'r pandemig wedi rhwystro cynnydd mewn perthynas â'r argymhelliad hwn.** Yn 2019, gwelsom ddiffyg prosesau ffurfiol i nodi a rhannu gwersi ar gyfer gwella ym mhob rhan o'r sefydliad i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. At hynny, yn 2019, cododd Uned Cyflenwi GIG Cymru bryderon am y broses o reoli digwyddiadau difrifol a digwyddiadau "byth", a dysgu ohonynt.<br><br>Rydym wedi nodi sefyllfa bresennol y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â dysgu a gwella mewn ymateb i bryderon ac adborth gan gleifion a staff (argymhelliad 12). Mae cynnydd wedi'i wneud i atgyfnerthu'r cyfrifoldeb cyffredinol am ddigwyddiadau clinigol a difrifol a'r ffordd y cânt eu rheoli, a hynny ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Mae tîm Digwyddiadau Difrifol a arweinir yn glinigol wedi'i sefydlu, ochr yn ochr â phroses fwy cadarn ar gyfer rheoli digwyddiadau, a dysgu ohonynt. Mae Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno pecyn cymorth Digwyddiadau Difrifol i gefnogi hyn. Dywedir bod yr adnodd hwn wedi helpu i sicrhau cysondeb wrth reoli digwyddiadau a rhannu gwersi a ddysgwyd. Mae'r tîm Digwyddiadau Difrifol yn cynnal archwiliad clinigol misol ac uwch-archwiliad (chwarterol) ar y cyd â'r Tîm Gofal a Diogelwch Cleifion. Caiff canfyddiadau'r archwiliadau hyn a'r camau ar gyfer dysgu ohonynt eu cofnodi drwy grwpiau Ansawdd, Diogelwch a Gweithredol yr ardal, a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
| --- | --- |
| | Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd yn sefydlu swyddogaeth gwella, sef ‘Gwella CTM’, a fydd yn dwyn ynghyd y gwersi a ddysgwyd drwy weithgarwch archwilio a phryderon. Disgwylir i’r swyddogaeth hon rymuso gweithlu’r Bwrdd Iechyd i gymryd cyfrifoldeb am wneud gwelliannau parhaus drwy ddysgu sefydliadol. Megis dechrau y mae’r gwaith o gyflwyno’r swyddogaeth hon, felly mae’n rhy gynnar i asesu ei heffeithiolrwydd.<br><br>Dywedodd sawl un wrthym fod gwella dysgu sefydliadol wed bod yn her i’r Bwrdd Iechyd yn sgil yr ymateb i’r pandemig. Er bod rhywfaint o dystiolaeth o ddull cryfach o ymdrin â dysgu sefydliadol, rydym wedi cyfyngu’r dystiolaeth ar yr adeg hon er mwyn sicrhau y caiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu’n effeithiol â phob rhan o’r sefydliad a phob aelod rheng flaen o’r staff. Canfu cofnodion ac arsylwadau dystiolaeth o rannu gwersi a ddysgwyd yng nghyfarfodydd ansawdd a diogelwch y Grwpiau Gwasanaethau Clinigol a’r Grwpiau Ardal Integredig. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu’r trefniadau cyffredinol ar gyfer rhannu gwersi a ddysgwyd ar draws y Grwpiau Ardal Integredig. Mae’r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o hyn, ac mae’n gobeithio y bydd pethau’n gwella, yn arbennig gan fod y Penaethiaid Ansawdd a Diogelwch bellach wedi ymgymryd â’u swyddi ym mhob un o’r Grwpiau Ardal Integredig. |

| Argymhelliad a wnaed ym mis Tachwedd 2019 | Crynodeb o'r cynnydd a wnaed erbyn mis Ebrill 2021 |
|---|---|
| | Canfu ein harsylwadau o gyfarfodydd ansawdd a diogelwch y Grwpiau Gwasanaethau Clinigol a’r Grwpiau Ardal Integredig y caiff gweithgareddau allanol megis arolygiadau AGIC eu trafod yn rheolaidd, er mwyn sicrhau y caiff camau eu cymryd i fynd i’r afael ag argymhellion ac y caiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu ar draws y Grwpiau Gwasanaethau Clinigol a’r Bwrdd Iechyd. Bydd y fforwm Gwrando a Dysgu a Rennir, y cyfeiriwyd ato yn flaenorol, hefyd yn canolbwyntio ar ddysgu o ganfyddiadau ac argymhellion o adolygiadau, archwiliadau ac arolygiadau allanol, a’u rhannu. Fodd bynnag, prin yw’r dystiolaeth i ddangos y caiff gwersi ehangach a ddysgwyd y tu hwnt i’r maes clinigol a arolygir eu rhannu’n effeithiol â phob maes clinigol arall a gyda’r staff, yn arbennig staff rheng flaen, sy’n gyfrifol am ofal beunyddiol cleifion.<br><br>Rhoddir sicrwydd i’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ynghylch y gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau, ond nid yw’r adroddiadau’n rhoi enghreifftiau o’r gwersi a ddysgwyd na’r ffordd y cânt eu cymhwyso neu eu rhannu’n ehangach yn y sefydliad. Mae hyn yn agwedd y mae angen ei hatgyfnerthu.<br><br>Canfu ein hadolygiad blaenorol nad achubwyd ar gyfleoedd i ddysgu yn dilyn trosglwyddo Pen-y-bont mewn perthynas â chynnal Profion Ffrindiau a Theulu. Yn 2019, roedd staff yn Ysbyty Tywysoges Cymru o’r farn mai ychydig o ystyriaeth a roddwyd i’r manteision y byddai defnyddio Profion Teulu a Ffrindiau i gasglu adborth amser real gan gleifion, yn eu rhoi i gleifion a staff. Fodd bynnag, ers ein hadolygiad, mae’r Bwrdd Iechyd wedi manteisio ar y gwersi hyn a ddysgwyd ac wedi rhoi’r Profion Teulu a Ffrindiau ar waith ar bob safle. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffônyn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

www.archiwilio.cymru

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8163

Rydym yn croesawu galwadau ffônyn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: hiw@gov.wales

www.hiw.org.uk